YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor yr Haf 2022 – Derbyn

## Bant â ni i gynllunio!




Mae lindys yn troi mewn i pili pala.
Nel

Dw i eisiau creu gwesty gwenyn.
Riley

**Dewis Ardal Chwarae Rôl**

Plantasia -30
Milfeddyg- 7

Beth mae malwoden yn ei fwyta?
Amelia

Mae gwenyn yn caru mêl.
Hallie

Mae malwod yn araf ac yn llysnafeddog.
Elsi

Mae gen i dŷ gwenyn yn fy ngardd.
Ioan

Sut mae mêl yn cael ei wneud?
Felix

Ble mae buchod coch cwta yn byw?
Elis. B

Rwy'n caru lliwiau'r pili palas.
Cadi

Sut ydych chi'n creu cwch gwenyn?
Addiena.

Mae'r rhan fwyaf o bryfed yn fach iawn.
Elenid

Pam mae pryfed cop yn creu gweoedd?
Osian J

YSGOL GYMRAEG

# Tymor yr Haf 2022 – Derbyn



Syniad mawr y tymor hwn:

## Byd y Bwystfilod Bach

Dyma rhai o'n syniadau;

*Pwrpas yr uned ddysgu hon yw i roi cyfle i'r dysgwyr i fod yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas a dechrau dysgu am gynaladwyaeth y blaned. Bydd cyfle i'r dysgwyr fod yn ymholgar ac i ddatblygu corff o wybodaeth am fwystfilod bach trwy brofiadau uniongyrchol. Byddent yn ymchwilio eu cynefinoedd a dysgu beth sydd angen ar fwystfilod bach i oroesi. Bydd deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd ar fwystfilod bach a'u cynefinoedd yn cyfrannu at ddatblygu dinasyddion egwyddorol gwybodus y dyfodol. Ar ddiwedd yr uned ddysgu, bydd cyfle i'r dysgwyr i gysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth greu 'Byd y Bwystfilod Bach'. Bydd angen iddynt gyfathrebu'n effeithiol wrth gyflwyno gwybodaeth am eu hoff fwystfil ac egluro sut wnaethon nhw eu modelau.*

### Mathemateg a Rhifedd

- Datblygu dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau.
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
- Cyfrif, darllen ysgrifennu a threfnu rhifau
- Dosbarthu gwrthrychau a chasglu data a'i gyflwyno.
- Ymchwilio i fesurau, siâp, arian a phatrwm
- Datrys problemau syml yn ymarferol.

### Y Dyniaethau

- Bod yn chwilfrydig am yr ardal leol.
- Dysgu am draddodiadau Ramadan a pham fod Eid yn bwysig i Fwslemiaid.
- Gofalu am bethau byw a'r amgylchfyd.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Mynd ar helfa bwystfilod.
- Arsylwi ar fwystfilod bach yn eu cynefinoedd
- Trin bwystfilod bach o Plantasia.
- Adnabod bod anifeiliaid yn bethau byw sy'n tyfu
- Adnabod ac enwi rhannau corff bwystfilod bach a'u nodweddion.
- Siarad am ffurf o ofalu am fwystfilod bach.
- Creu 'Caffi Neithdar' i'r gwenyn
- Arsylwi ar gylch bywyd pili pala.
- Defnyddio dyfeisiau digidol i recordio'u creadigaethau
- Archwilio amrywiaeth o galedwedd cyfrifiadurol- rheoli'r 'Code-a-pillar' neu Bee-bot.

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**

[www.yggbrynymor.co.uk](www.yggbrynymor.co.uk)

**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBrynymor1**

### Iechyd a Lles

- Dangos chwilfrydedd
- Mynegi a gwneud penderfyniadau
- Dangos gofal a pharch at eraill
- Ymarfer a datblygu sgiliau echddygol bras, sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw- llygad
- Paratoi, ymarfer a chymryd rhan mewn mabolgampau

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
- Creu cornel chwarae rôl 'milfeddyg' neu 'ardal anifeiliaid Plantasia' (plant i bleidleisio)
- Gwrando ar lawer o straeon a barddoniaeth sy'n ymwneud â'r syniad mawr
- Dysgu geirfa, a chaneuon sy'n ymwneud â'r syniad mawr
- Gweithgareddau cyn darllen / ysgrifennu, e.e.. gemau gwrando
- Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol e.e., ffeil-o-ffaith.

### Y Celfyddydau Mynegiannol

- Archwilio ac arbrofi gyda chlai gan ddefnyddio gwahanol offer a thechnegau.
- Trin deunyddiau hyblyg i amrywiaeth o siapiau a ffurf gyda dwylo neu offer.
- Cynllunio a chreu bwystfilod bach allan o glai.
- Creu arddangosfa bwystfilod bach a gwahodd rhieni i'w weld
- Mwynhau canu caneuon cyfarwydd a rhai newydd.